Asiantaeth Cynnal Plant

Pwy ydym ni?

Mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym yn ymrwymedig i helpu'r rhieni hynny sy'n byw ar wahân i gwrdd â'u cyfrifoldeb i ddarparu cymorth ariannol i'w plant. Rydym yn cyflogi oddeutu 11,000 o bobl yn ein rhwydwaith o swyddfeydd ledled Prydain Fawr.

Ein nod yw lleihau tlodi ymhlith plant a chasglu mwy o arian ar gyfer mwy o blant.

I wneud hyn, bwriadwn:

- Darparu lefel dda o wasanaeth i gleientiaid;
- Gwneud cyfrifiad cyflym a chywir o gynhaliaeth plant;
- Sicrhau y caiff ei thalu ar amser
- Cymryd camau cyflym a llym yn erbyn y rhai sy'n methu â thalu y gynhaliaeth hon.

Pobl yr asiantaeth

Rydym yn cyflwyno Cynllun Gwella Gweithredol ar hyn o bryd i wella ein gwasanaethau i gleientiaid, cynyddu'r swm o arian y byddwn yn ei gasglu, cyflawni gwell cydymffurfiaeth a darparu gwell llwyfan i weithredu polisïau esblygol yn y dyfodol.
Mae hyn yn gofyn i ni fod yn broffesiynol, yn gymwynasgar ac yn gwrtais wrth ymdrin â'n cleientiaid. I gyflawni hyn mae angen bobl frwdfrydig arnom gyda'r sgiliau cywir i gyflenwi gwell gwasanaethau i'r cleient.

Mae arnom angen pobl ddyfeisgar, sy'n meddu ar hunangymhelliant ac sy'n barod i addasu i gwrdd â'r her o gyflenwi system cynhaliaeth plant newydd rhwng nawr a 2012.

asiantaeth cynnal plant

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Dyfodol cynhaliaeth plant

Mae papur gwyn y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006, ar ddyfodol cynhaliaeth plant, yn cynnig system newydd, yn cynnwys creu gorff cyhoeddus anadrannol i'w redeg. Bydd pob cyflogai, sy'n rhan o'r Asiantaeth, yn trosglwyddo i'r corff newydd hwn pan gaiff ei sefydlu yn 2008.

Mae dyfodol cynhaliaeth plant yn addo i fod yn heriol ac yn gyffrous. Mae arnom angen pobl sy'n barod i gwrdd a'r heriau hyn ac i gyflawni newid yn llwyddiannus i'n helpu i gael mwy o arian ar gyfer mwy o blant.

Oriau gwaith a thalebion gofal plant

Mae gan yr Asiantaeth oriau gwaith safonol y gall ein pobl wneud cais amdanynt. Bydd hysbysebion swyddi yn datgan p'un a oes angen patrymau gwaith penodol.

Mae pob gweithiwr yn yr Asiantaeth yn gymwys i wneud cais am gymhorthdal i gwrdd a'u costau gofal plant. Mae gennym gyfleusterau meithrinfa ar gyfer gweithwyr yr Asiantaeth mewn 5 lleoliad.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr Asiantaeth Cynnal Plant ar ein gwefan yn: www.csa.gov.uk

BUDDSODDWR MEWN POBL

GADARN O BLAID YN · POBL ANABL